**EISTEDDFOD GENEDLAETHOL YR URDD, SIR GAERFYRDDIN 2023**

Cystadleuaeth 126 – Grŵp Llefaru Bl.6 ac iau

# Merched Beca – Arwel John

Mae Merched rhyfedd heno
Yn gweiddi yn fy nghlust,
Eu lleisiau'n diasbedain
Ar bwys y tolldy. Ust!
A glywch chi sŵn y bloeddio cras
A llais mawr dwfn y fenyw gas?

Mae'r gât yn awr yn yfflon
A'r tolldy bach yn fflam,
Mae'r merched mewn gorfoledd
Yn gofyn, "Digon, Mam?"
Mae'r wlad i gyd dan stomp eu traed
A'r tirfeddiannwr am eu gwaed.

Mae'r helynt 'nawr yn tyfu
Ymhell o'r Efail Wen,
A sŵn bwledi'r Merched
Yn sgrech ar draws y nen;
A dim ond cwmwl dwst lle bu
Ceffylau glân y Merched du.

---

Gyda chaniatâd caredig Arwel John